

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board


# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Rhaglen Sylfaen
















Fersiwn 2: Hydref 2024

# Pam mae Caerdydd yn lle mor braf?

Mae Caerdydd yn ddinas unigryw sy'n cynnig pob dim sydd i'w ddisgwyl mewn prifddinas fodern, ac yn mwynhau ansawdd bywyd rhagorol. Mae trigolion Caerdydd yn credu mai hi yw un o'r dinasoedd gorau yn Ewrop i fyw a gweithio.

Fel dinas amlddiwylliannol lle mae pob man yn agos i'w gilydd, mae Caerdydd yn lle braf a hamddenol, gyda digonedd o atyniadau diwylliannol a hanesyddol, busnesau annibynnol ac awyrgylch cyfeillgar. - Amy Pay, un o awduron Lonely Planet

"Dinas y parciau" yw Caerdydd lle mae mwy o fannau glas i bob person na'r un ddinas fawr arall yn y DU ac mae llyfr teithio Lonely Planet wedi'i chanmol am ei ffordd hamddenol o fyw. Ceir bywyd nos bywiog lle gallwch fwynhau prysurdeb Heol Eglwys Fair yn ogystal ag ymlacio yn y bwytai a'r tafarnau yn y Bae.

Mae siopau bwtîc o lawer math yn yr arcedau Fictoraidd amrywiol yn ogystal â siopau adrannol mawr. Ceir neuaddau cyngerdd o'r radd flaenaf yma a digwyddiadau rhyngwladol pwysig; mae Stadiwm Principality yn enwog drwy'r byd, cynhelir gemau criced rhyngwladol yn Stadiwm Gerddi Sophia, yn cynnwys gemau'r Llwch a Chwpan Criced y Byd, ac mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi ennill ei lle ar y llwyfan rhyngwladol am ei digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol.

Er bod y farchnad dai preswyl yng Nghaerdydd yn un ffyniannus, mae costau tai yn is nag mewn llawer rhan arall o'r DU. Mae ei hysgolion yn cynnig addysg a chyfleusterau o ansawdd da. Bydd Adran Lety Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnig cymorth i hyfforddeion newydd sydd am symud i'r ddinas. Ac yn ben ar y cwbl, am ei bod yng nghanol ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, a Bro Morgannwg, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Phenrhyn Gŵyr i gyd yn agos, mae Caerdydd yn lleoliad delfrydol.

# Pam gweithio yn BIP Caerdydd a’r Fro?

Mae BIP Caerdydd a’r Fro wedi ennill enw da am fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer gofal clinigol, addysg feddygol ac ymchwil. Ers ei sefydlu yn 2009, yn dilyn ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru, y BIP hwn yw un o’r sefydliadau mwyaf a mwyaf amrywiol sy’n darparu gofal iechyd yn y DU. Mae cysylltiadau cryf rhyngddo a Choleg Meddygaeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd.



## Gweithio i BIP Caerdydd a’r Fro

Mae’r BIP yn credu ei bod yn bwysig i’w holl staff fod mor hapus â phosibl â’u trefniadau gweithio. Felly, mae wedi ymrwymo i wella’r amgylchedd gwaith a galluogi’r holl staff i sicrhau cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Yn y Clwb Cymdeithasol ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru, mae cyfleusterau ar gyfer ymlacio ac ymarfer ac mae campfa ar gael yn ogystal â phwll nofio a chwaraeon raced a phêl. Mae ystafell gyffredin i feddygon yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, gyda theledu sgrin lydan, seddau cyfforddus a chyfleusterau ar gyfer lluniaeth. Mae llety ar gael ar y ddau safle hyn os bydd ei angen.

## Y Rhaglen Sylfaen yn BIP Caerdydd a’r Fro

Mae’r rhan fwyaf o’n swyddi sylfaen wedi’u lleoli un ai yn Ysbyty Athrofaol Cymru neu yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Ymysg y lleoliadau eraill ar gyfer hyfforddi y mae Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Hosbis Marie Curie a Chanolfan Ganser Felindre, ynghyd â nifer o Bractisiau Gofal Sylfaenol yn ogystal â lleoliadau iechyd meddwl cymunedol. Ceir cyfleoedd i hyfforddi mewn gwasanaethau gofal iechyd cymunedol, sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

Ar safleoedd Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau mae Canolfannau Addysg Feddygol sydd â staff gwybodus a chymwynasgar wrth law i ddarparu cyngor a chymorth drwy gydol eich blynyddoedd Sylfaen.

Trefnir rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar ddechrau cyfnod eich swydd a bydd Cyfarwyddwyr y Rhaglen Sylfaen yn cwrdd â’r holl hyfforddeion sylfaen i’ch croesawu i’r BIP a sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi ar y cam hwn yn eich gyrfa. Bydd cyfleoedd rheolaidd i roi adborth ac, os bydd unrhyw anawsterau’n codi yn ystod eich cyfnodau mewn swydd, bydd help yn hawdd ei gael. Cafwyd adborth cadarnhaol bob amser am y rhaglen addysgu ac mae’n caniatáu digon o amser i chi ddysgu. Mae’n cwmpasu’r holl elfennau yng Nghwricwlwm y Rhaglen Sylfaen ac mae’n cael ei gwerthuso drwy’r amser er mwyn gwella safon yr addysg a ddarperir.

Mae nifer o wahanol Raglenni ar gael:

- Rhaglen draddodiadol o 3 lleoliad 4 mis mewn cylchdro bob blwyddyn
- Rhaglenni Arbenigol
- Rhaglenni LIFT

# Ysbyty Athrofaol Cymru (UHW)

Mae Ysbyty Athrofaol Cymru yn ysbyty addysgu mawr yn ninas Caerdydd. Wrth weithio yma fel hyfforddai sylfaen, byddwch yn gallu dysgu gan rai o'r clinigwyr mwyaf blaenllaw yn eu maes drwy ddiwylliant o arloesi, addysg ac ymchwil. Mae'r ysbyty hwn yn darparu gofal eilaidd i boblogaeth Gogledd a Dwyrain Caerdydd a gofal trydyddol ym meysydd arenneg, y niwrowyddorau, hematoleg, pediatreg a neonatoleg, gofal cardiothorasig a gofal critigol. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi yn rhai prysur ac yn darparu profiad da wrth ddatblygu sgiliau asesu a phenderfynu clinigol o fewn amgylchedd tîm cefnogol.



Mae'r Ganolfan Addysg Feddygol yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi'i lleoli yn yr Adeilad Cochrane pwrpasol sydd hefyd yn gartref i Lyfrgell Iechyd ac Ysgol Feddygol Prifysgol Caerdydd. Ceir cyfleusterau addysgol rhagorol yn y Ganolfan ac mae'n cynnig rhaglen addysg fywiog i raddedigion.




Bydd hyfforddeion yn gweld gwerth mawr yn y cyfarfodydd adrannol lle bydd cyfleoedd i ddysgu ac i feithrin profiad wrth gyflwyno eu gwaith eu hunain.

Oherwydd y cysylltiadau cryf â Phrifysgol Caerdydd, mae cyfleoedd da i gymryd rhan mewn ymchwil ac ymgymryd â rhagor o ddatblygu academaidd os ydych yn dymuno. Mae nifer o swyddi sylfaen academaidd ar gael sydd â'r nod penodol o hybu addysgu a gwaith ymchwil yn ystod y rhaglen.

# Ysbyty Athrofaol Llandochau (UHL)

Mae Ysbyty Athrofaol Llandochau ym Mhenarth ym Mro Morgannwg. Mae'n darparu gwasanaethau gofal eilaidd meddygol i boblogaeth Gorllewin Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae hefyd yn gartref i Ganolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro (CAVOC) sy'n darparu gwasanaethau orthopedig dewisol a gwasanaethau anadlol trydyddol, yn cynnwys gwasanaeth ffeibrosis systig. Gall yr ysbyty fanteisio ar wasanaethau rhagorol ar gyfer ffisioleg yr ysgyfaint a gwasanaethau radioleg a phatholeg thorasig sydd gyda'r rhai mwyaf modern. Agorwyd uned endosgopi newydd yn ddiweddar lle mae cyfleusterau rhagorol ar gyfer gweithdrefnau endosgopig gastroenterolegol a meddygaeth anadlol ymyrrol, yn cynnwys technegau broncosgopi uwch a thoracosgopi.



Ceir cyfleusterau llyfrgell ac addysgol rhagorol yn y Ganolfan Addysg Feddygol yn Ysbyty Athrofaol Llandochau gyda rhaglen addysg fywiog i raddedigion ac ystafell "efelychu" sydd wedi'i datblygu'n ddiweddar.

## Hosbis Marie Curie

Mae Hosbis Marie Curie Caerdydd a'r Fro wedi'i lleoli ym Mhenarth, Bro Morgannwg, tua 2 filltir o Ysbyty Athrofaol Llandochau. Mae'n sefyll ar ben clogwyn lle ceir golygfeydd godidog o Fôr Hafren. Mae'r hosbis mewn adeilad pwrpasol lle darperir 28 o welyau i gleifion mewnol mewn dwy ward yn gwasanaethu Caerdydd a Bro Morgannwg. Ceir uned therapi dydd yma hefyd yn ogystal â thîm gofal lliniarol cymunedol Marie Curie sy'n darparu cyngor a chymorth i gleifion yn ardal Bro Morgannwg sydd â salwch terfynol.